**COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR CYLLID AC ADNODDAU PRIFYSGOL CAERDYDD A GYNHALIWYD DDYDD IAU 25 MAWRTH 2021 AM 10.00AM DRWY FIDEOGYNADLEDDA**

Yn bresennol: John Shakeshaft (Cadeirydd), yr Athro Colin Riordan, Hannah Doe, Tomos Evans, Yr Athro Karen Holford, Chris Jones, Jan Juillerat, Dr Steven Luke, yr Athro Stuart Palmer a David Simmons.

Y sawl oedd yn bresennol: Dev Biddlecombe, Ms Katy Dale (Cofnodion), Rashi Jain, Alison Jarvis, Sue Midha, Dr Jonathan Nicholls, Melanie Rimmer, Ruth Robertson, Claire Sanders a Rob Williams.

Ymddiheuriadau: Yr Athro Kim Graham

**731 CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig Dr Jonathan Nicholls (a oedd yn cynnal Adolygiad Effeithiolrwydd Llywodraethu ar ran y Brifysgol) a Ruth Robertson (Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol).

**732 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau gan yr Athro Kim Graham.

**733 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2021 (20/492C) fel cofnod cywir a gwir ac fe'u cymeradwywyd i gael eu llofnodi gan y Cadeirydd.

**734 MATERION YN CODI**

Derbyniwyd papur 20/493, 'Materion yn Codi'.

NODWYD Y CANLYNOL

734.1 y disgwylid y byddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Ystadau a gwarediadau ystadau yn cael ei chyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor, yn dilyn adolygiad yn yr Is-bwyllgor Ystadau a Seilwaith;

734.2 bod y Cadeirydd wedi ymgymryd â'r canlynol drwy Gam Gweithredu'r Cadeirydd:

.1 cymeradwyo newidiadau i'r Polisi Ffioedd Dysgu;

.2 cymeradwyo diwygiadau i'r Cynllun Ffioedd a Mynediad ar gyfer 2021-22 i ganiatáu eu cyflwyno i CCAUC.

**735 DATGAN BUDDIANNAU**

Atgoffodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor o'u dyletswydd i ddatgelu unrhyw wrthdaro buddiannau posibl. Nodwyd datganiadau buddiant gan Lywydd Undeb y Myfyrwyr ac Is-lywydd Addysg mewn perthynas â Chyfrifon Undeb y Myfyrwyr 2019-20 a Grant Bloc Undeb y Myfyrwyr.

**736 ADRODDIAD GAN YR IS-GANGHELLOR**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/494C, 'Adroddiad yr Is-Ganghellor i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau'. Gwahoddwyd yr Is-Ganghellor i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

736.1 bod y Brifysgol yn parhau i adolygu'r ddarpariaeth addysg ddigidol a sut y byddai addysgu'n cael ei ddarparu wrth symud ymlaen, er mwyn sicrhau bod hyn yn gytbwys rhwng yr hyn yr oedd myfyrwyr ei eisiau a'r hyn y gallai staff ei ddarparu;

736.2 bod cyfradd uchel o gynigion cadarn diamod a oedd yn cyfeirio at fyfyrwyr a oedd yn gymwys ar gyfer y rhaglen astudio ac wedi derbyn cynnig gan y Brifysgol; roedd hyn yn uwch nag arfer a oedd yn gadarnhaol, ond roedd hefyd yn cynnwys nifer o fyfyrwyr gohiriedig ac felly nid oedd yn warant o fyfyrwyr yn dechrau astudio yn hydref 2021;

736.3 nad oedd canlyniadau gwerthuso modiwlau yn cydfynd yn uniongyrchol â data boddhad cwsmeriaid ac fe'u defnyddiwyd yn bennaf gan academyddion sy'n rhedeg cyrsiau i werthuso sut y cawsant eu derbyn; roedd y Rhag Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr yn ymgymryd â phrosiect ynghylch Llais y Myfyrwyr i nodi ble mae adborth myfyrwyr yn cael ei gasglu a'i adolygu a byddai hyn yn rhoi darlun mwy cyfannol o foddhad myfyrwyr.

**737 ADRODDIAD GAN YR IS-BWYLLGOR BUDDSODDI A BANCIO**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papurau 20/495C, 'Adroddiad gan Gadeirydd yr Is-bwyllgor Buddsoddi a Bancio'. Gwahoddwyd Cadeirydd yr Is-bwyllgor Buddsoddi a Bancio i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

737.1 bod y tap bondiau wedi'i gyhoeddi'n llwyddiannus;

737.2 y byddai'r Is-bwyllgor Buddsoddi a Bancio yn canolbwyntio yn y dyfodol ar sicrhau bod arian yn cael ei fuddsoddi'n ddoeth, bod rheolwyr cronfeydd yn cynhyrchu enillion da a bod cynnydd yn cael ei wneud ar y gronfa Ad-dalu Bondiau.

**738 PENDERFYNIADAU A WNAED GAN YR IS-GANGHELLOR O DAN AWDURDOD DIRPRWYEDIG**

Derbyniwyd a nodwyd papur 20/496C, 'Penderfyniadau a wnaed gan yr Is-Ganghellor o dan Awdurdod Dirprwyedig'.

**739 DANGOSFWRDD ADNODDAU DYNOL**

Derbyniwyd a nodwyd papur 20/497C, 'Dangosfwrdd Adnoddau Dynol'. Gwahoddwyd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

739.1 bod yr adroddiad yn cyflwyno ciplun o'r Brifysgol ar adeg benodol; roedd y data yn yr adroddiad hwn fel yr oedd o 31 Ionawr 2021;

739.2 bod y cyfrif pen a'r CALl wedi gostwng 1.6% ac 1.4% yn ystod y deuddeg mis diwethaf:

739.3 bod y Brifysgol yn parhau i fod yn fwy na 30% y KPI Staff Academaidd Rhyngwladol sef % a bod hyn yn parhau'n sefydlog;

739.4 bod absenoldeb oherwydd salwch wedi gostwng o 2.6% i 1.9% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf;

739.5 oherwydd rheolaethau recriwtio, bu gostyngiad sylweddol yn nifer yr hysbysebion o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol;

739.6 yn dilyn cais yn y cyfarfod diwethaf i adrodd ar staff dros dro, byddai adrodd ar staff dros dro fel y'u diffinnir yn y ffurflen HESA fel rhai annodweddiadol yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau o'r flwyddyn academaidd nesaf;

739.7 bod cynnydd mewn cystadleuaeth yn y farchnad lafur mewn rhai meysydd (e.e. TG) ond bod cyfleoedd a ddaw o ffyrdd newydd o weithio yn caniatáu recriwtio o gronfa ehangach; nid oedd y Brifysgol wedi gweld problemau o ran cadw staff ac roedd yn awyddus i ddatblygu'r rheini o fewn y gweithlu ochr yn ochr â chyflwyno sgiliau newydd;

739.8 nad oedd yn ymddangos bod newidiadau sylweddol ym mhatrwm absenoldeb sy'n gysylltiedig â straen oherwydd COVID-19; cymerwyd achosion o straen o ddifrif a chafodd manylion eu monitro drwy'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd; nodwyd hefyd, yn ystod COVID-19, y bu cynnydd mewn straen y tu allan i'r gwaith (e.e., ariannol, iechyd) ac felly ni fyddai pob achos o straen yn gysylltiedig â gwaith.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

739.9 i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol ac Ysgrifennydd y Brifysgol drafod fformat yr adroddiad hwn ar gyfer y Cyngor yn y dyfodol;

739.10 i eglurder gael ei ddarparu ar y gwahaniaeth rhwng y categorïau absenoldeb oherwydd salwch o'r enw "pawb" a "phob un arall".

## 740 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM BENSIYNAU

Derbyniwyd a nodwyd papur 20/521C, 'Diweddariad pensiynau'. Gwahoddwyd y Prif Swyddog Ariannol i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

740.1 bod pensiynau wedi'u nodi fel risg ar gofrestr risgiau’r Brifysgol;

<u>Cynllun Pensiwn Prifysgolion (USS)</u>

740.2 [HEPGORWYD]

740.3 [HEPGORWYD]

740.4 bod trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r Cyd-bwyllgor Negodi (JNC) ynghylch diwygio budd-daliadau;

740.5 bod bwrdd USS yn cyfarfod i ystyried ymateb i UUK; disgwylid y byddai cyflogwyr yn cael papur ymgynghori gan UUK ar ôl y Pasg, gyda'r meysydd allweddol yn gymorth cyfamod, ailstrwythuro budd-daliadau a'r lefelau cyfraniadau y byddent yn barod i'w talu;

740.6 disgwylid y byddai USS yn dechrau ymgynghoriad ffurfiol gydag aelodau yn yr Hydref ac unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt a weithredir o Wanwyn 2022;

740.7 [HEPGORWYD]

740.8 [HEPGORWYD]

740.9 [HEPGORWYD]

740.10 bod hyn yn parhau yn fater anodd i'r sector cyfan;

Cynllun Pensiwn Prifysgol Caerdydd (CUPF)

740.11 [HEPGORWYD]

740.12 [HEPGORWYD]

740.13 [HEPGORWYD]

740.14 [HEPGORWYD]

740.15 [HEPGORWYD].

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

740.16 y byddai'r Prif Swyddog Ariannol ac Ysgrifennydd y Brifysgol yn trafod cyfarfod â Dr Pretty Sagoo.

**741 ADRODDIAD CYLLID (CYFRIFON RHEOLI ARIANNOL)**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/501C, 'Adroddiad Cyllid'. Gwahoddwyd y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

741.1 [HEPGORWYD]

741.2 [HEPGORWYD]

741.3 roedd y Brifysgol hefyd wedi elwa ar rywfaint o gyfalafu a chynnydd mewn cyllid grant;

741.4 bod nifer o ddarpariaethau mewn perthynas â'r gwarged hwn:

.1 [HEPGORWYD]

.2 [HEPGORWYD]

.3 [HEPGORWYD]

.4 [HEPGORWYD]

.5 [HEPGORWYD]

741.5 y byddai'r gyllideb yn cael ei hadolygu eto ar ôl y Pasg a bod rhagolwg pellach yn cael ei gynnal.

**742 DIWEDDARIAD AR AMCANESTYNIADAU ARIANNOL 21-22**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/522C, 'Amcanestyniadau Ariannol 2020-21'. Gwahoddwyd y Prif Swyddog Ariannol i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

742.1 ei fod yn gynnar iawn o hyd yn y cylch cynllunio a bod y papur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfeiriad teithio ac amcangyfrifon gorau cyfredol;

742.2 [HEPGORWYD]

742.3 [HEPGORWYD]

742.4 bod llawer o rannau sy'n symud o hyd mewn perthynas â'r ffigurau hyn:

.1 sut yr edrychwyd ar y Brifysgol yn rhyngwladol am ei hymchwil a'i haddysgu;

.2 sut y byddai'r profiad dysgu yn edrych ar gyfer 21/22;

.3 ei bod yn ymddangos bod myfyrwyr yn oedi cyn gwneud penderfyniad cadarn nes bod mwy o eglurder ynghylch y ddarpariaeth ar gyfer 21/22; roedd niferoedd israddedigion a PGT myfyrwyr cartref yn edrych yn gryf ond roedd rhywfaint o ddirywiad yn y farchnad PGT Rhyngwladol;

742.5 bod trafodaethau'n cael eu cynnal gydag Ysgolion ar sefyllfa'r gyllideb ar gyfer 21/22 a'r goblygiadau i niferoedd myfyrwyr;

742.6 y disgwylid y byddai dealltwriaeth gliriach o'r sefyllfa mewn pryd ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Mehefin; byddai diweddariad hefyd ar y blynyddoedd i ddod yn y cyfarfod hwnnw;

742.7 bod y Pwyllgor yn croesawu'r naratif a'r wybodaeth ddiweddaraf a ddarparwyd gan y papur.

**743 DIWEDDARIAD AR CIC**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/498C, 'Diweddariad ar Gampws Arloesedd Caerdydd'. Gwahoddwyd y Dirprwy Is-Ganghellor i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

743.1 na fu unrhyw bwysau cost pellach i'r prosiect, ac eithrio'r rhai mewn perthynas â COVID-19;

743.2 bod dyddiadau cwblhau diwygiedig wedi cael eu cynnwys yn y papur a byddai diweddariad ar lafar yn cael ei ddarparu i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 19 Ebrill;

743.3 [HEPGORWYD]

743.4 lle'r oedd risgiau wedi'u cau heb ddefnyddio'r gyllideb a ddyrannwyd neu wedi lleihau gwerth, bod gweddill yr arian yn cael ei symud i gyllideb wrth gefn ar gyfer y prosiect.

**744 CYFRIFON UNDEB Y MYFYRWYR 2019-20 AC ADRODDIAD EFFAITH**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/499C, 'Cyfrifon Undeb y Myfyrwyr 2019-20 ac Adroddiad Effaith'. Gwahoddwyd Prif Weithredwr Undeb y Myfyrwyr i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

744.1 bod Daniel Palmer (Prif Weithredwr Undeb y Myfyrwyr) wedi ymuno â'r cyfarfod i gyflwyno'r eitem hon;

744.2 bod y Cyfrifon Blynyddol yn cael eu derbyn yn hwyrach nag arfer, oherwydd oedi wrth archwilio'r cyfrifon oherwydd COVID-19;

744.3 bod Cyfrifon Blynyddol 2019/20 wedi cael eu cymeradwyo gan yr Ymddiriedolwyr a'u llofnodi gan Lywydd Undeb y Myfyrwyr a'r Archwilwyr;

744.4 er gwaethaf y flwyddyn anodd, roedd Undeb y Myfyrwyr wedi perfformio'n dda, ac enillodd bleidlais i gael ei datgan yn Undeb Myfyrwyr Cymru y Flwyddyn am yr ail flwyddyn yn olynol;

744.5 bod y rhan fwyaf o'r incwm blynyddol wedi'i godi erbyn y cyfnod clo ym mis Mawrth 2020;

744.6 [HEPGORWYD]

744.7 [HEPGORWYD]

744.8 [HEPGORWYD]

744.9 [HEPGORWYD]

## 745 GRANT BLOC UNDEB Y MYFYRWYR 21-22

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/500C, 'Cais am Grant Bloc UM'. Gwahoddwyd Prif Weithredwr Undeb y Myfyrwyr i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

745.1 bod y cyfyngiadau symud estynedig parhaus wedi lleihau costau;

745.2 bod Undeb y Myfyrwyr yn optimistaidd o hyd am flwyddyn academaidd 21/22 ac yn dychwelyd rhai gweithgareddau, er y disgwylir y byddai'n dychwelyd yn llawn i'r gwaith arferol; disgwylid y byddai'r gwasanaethau'n parhau mewn fformat cyfunol;

745.3 bod semester cyntaf y flwyddyn academaidd yn bwysig er mwyn creu sefyllfa ariannol gref a chynnig cymorth i fyfyrwyr;

745.4 bod diolch yn cael ei estyn i'r Brifysgol ac i'r Prif Swyddog Gweithredu am eu cefnogaeth;

745.5 [HEPGORWYD]

745.6 y byddai Undeb y Myfyrwyr yn croesawu unrhyw gymorth ariannol pellach pe bai ar gael;

745.7 [HEPGORWYD].

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

745.8 argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo Grant Bloc Undeb y Myfyrwyr ar gyfer 2021/22.

## 746 FFURFLEN TRAC

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/503C 'Ffurflen TRAC 19-20'. Gwahoddwyd y Prif Swyddog Ariannol i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

746.1 bod y ffurflen TRAC yn ofyniad blynyddol ac roedd yn ofynnol i'r ffurflen hon gael ei chyflwyno erbyn 31 Mawrth 2021;

746.2 bod cynnydd wedi bod yn y broses o adennill costau economaidd ar gyfer addysgu a ariennir gan y cyhoedd ond gostyngiad yn yr adferiad ar gyfer addysgu nad yw'n cael ei ariannu'n gyhoeddus; cafodd COVID-19 effaith ar hyn ond cafodd elfennau eraill effaith hefyd;

746.3 bu gwelliant yn y gyfradd adfer o ymchwil yn 19/20; cafwyd trafodaeth ar draws y sector ar gyfraddau adennill ar gyfer gorbenion gan fod llawer o sefydliadau'n gweld problem yn y maes hwn ac roedd UKRI yn ystyried a ddylid dal y rhain drosodd;

746.4 bod cynnydd wedi bod yn yr elw ar gyfer cynaliadwyedd a buddsoddi; oherwydd diffygion blaenorol, mae hyn yn is nag yr oedd y Brifysgol yn ei dargedu yn y dyfodol;

746.5 oherwydd COVID-19, casglwyd data dyrannu amser gan ddefnyddio arolygon dyrannu amser yn hytrach na'r model dyrannu llwyth gwaith, gan fod y model wedi'i oedi; yn y tymor hwy, byddai'r model dyrannu llwyth gwaith yn cael ei ddefnyddio a'i fireinio i greu barn fwy cyfannol;

746.6 bod y Brifysgol yn adolygu'r broses o ddyrannu adnoddau ar draws ysgolion a byddai'n dod â phapur ar hyn i gyfarfod yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

746.7 i gymeradwyo'r ffurflen TRAC ar gyfer 2019/20.

**747 UNRHYW FATER ARALL**

NODWYD Y CANLYNOL

747.1 [HEPGORWYD]

747.1 [HEPGORWYD]

747.1 [HEPGORWYD]

**748 AGENDA'R CYFARFOD NESAF**

Derbyniwyd papur 20/502, 'Agenda'r cyfarfod nesaf'.

NODWYD Y CANLYNOL

748.1 oherwydd y busnes i'w wneud, byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei ymestyn.